PRIFYSGOL CAERDYDD
CARDIFF UNIVERSITY
Canolfan Llywodraethiant Cymru
Wales Governance Centre

Ysgol Cyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd
Caerdydd [redacted]

Cardiff School of Law and Politics
Cardiff [redacted]

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

10 Ionawr | January 2025

Cynigion Diwygiedig ar gyfer adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd: Enwau Amgen

Diolch am y cyfle i gyflwyno ymateb i gynigion diwygiedig y Comisiwn ar gyfer adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd, fel y'u cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

Rydym yn cymeradwyo penderfyniad y Comisiwn i fabwysiadu enwau Cymraeg yn ei gynigion diwygiedig. Rydym hefyd yn cefnogi ymdrechion y Comisiwn i ddewis enwau a fydd yn parhau i fod yn hygyrch yn y Saesneg, gan gynnwys osgoi treigladau gramadegol lle gallai'r rhain arwain at enwau anghyfarwydd yn Saesneg.

Fodd bynnag, trwy geisio cael gwared ar nodwyr fel atalnodau, cysylltnodau a'r gair 'a' ar gyfer yr holl enwau etholaeth a argymhellir, rydym hefyd yn nodi bod y cynigion diwygiedig yn cynnwys sawl enw sy'n lletchwith, yn anfanwl a/neu'n anghoeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn yr ymateb ymgynghori canlynol, rydym yn cynnig sawl dewis amgen felly, a fyddai'n cynnal enw Cymraeg ond yn cynnig ffordd fwy rhugl a choeth o ddisgrifio ardal yr etholaeth arfaethedig.

1. Bangor Conwy Môn. Rydym yn argymell yr enw Aberconwy, Môn a Menai, yr ydym o'r farn sy'n cynnig ffordd fwy rhugl a choeth o ddisgrifio'r etholaeth yn y Gymraeg ac sydd eto'n dal i fod yn hawdd ei ynganu yn y Saesneg.

2. Clwyd. Yn y cynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn yn dadlau "bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth eang o Gymru gan ei fod yn enw a ddefnyddir yn gyffredin ac sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer y rhanbarth".

Mae 'Clwyd', wrth gwrs, yn enw a ddefnyddir yn gyffredin ac sydd wedi'i hen sefydlu, ond mae'r rhanbarth yn cwmpasu ardal lawer mwy na'r hyn a gynigir ar gyfer yr etholaeth newydd: mae sir Clwyd a gadwyd ar ôl 1996 yn cwmpasu'r ardal o Lanfairfechan i Fangor Is-coed. Gan fod y rhan fwyaf helaeth o sir Clwyd a gadwyd wedi'i lleoli y tu allan i'r etholaeth arfaethedig, mae defnyddio'r enw hwn ar gyfer is-ran mor fach o ardal y sir yn amhriodol.

Rydym yn dadlau bod yr enw amgen i'r sedd - Bryniau Clwyd a'r Glannau - yn cynnig disgrifiad mwy cywir ar gyfer yr ardal. Mae'n adlewyrchu dwy brif nodwedd yr etholaeth

arfaethedig: yr ardal ucheldir o gwmpas Bryniau Clwyd, yn ogystal â llai arfordirol hir arfordir y gogledd-ddwyrain.

3. Fflint Wrecsam. Yn y cynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn yn nodi bod y lluniad hwn "yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth eang o Gymru nad yw'r Gymraeg yn brif iaith iddynt". Rydym yn cytuno bod yr enw hwn ar yr etholaeth yn cyflawni'r nod hwn, ond yn dadlau bod y Comisiwn, drwy wneud hynny, wedi bathu enw coeth yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y pen draw.

Rydym yn dadlau bod enw arall, Maelor, yn cynnig dewis amgen cyfleus sy'n dwyn i gof cymydau/commotes hanesyddol Maelor Gymraeg a Maelor Saesneg yng ngogledd-ddwyrain Cymru a oedd yn ffurfio'r rhan fwyaf o ardal a phoblogaeth yr etholaeth newydd (gweler https://cbhc.gov.uk/mapio-ffiniau-hanesyddol-cymru-cymydau-a-chantrefi/). Mae 'Maelor' yn cynnig fersiwn syml a chryno ar gyfer enw'r etholaeth sy'n adnabyddus yn y presennol oherwydd yr ysbyty rhanbarthol.

Byddai ail ddewis amgen – Wrecsam Dyfrdwy – yn cysylltu dwy brif elfen y sedd hon. Hafren Dyfrdwy yw enw'r cwmni dŵr lleol, felly mae cystrawennau fel y rhain yn gyfarwydd yn y Saesneg.

4. Gwynedd Maldwyn. Rydym yn cytuno â'r enw etholaeth arfaethedig hwn ac yn awgrymu dim newidiadau.

5. Ceredigion Penfro. Rydym yn cytuno â'r enw etholaeth arfaethedig hwn ac yn awgrymu dim newidiadau.

6. Sir Gâr. Rydym yn cytuno â'r enw etholaeth arfaethedig hwn ac yn awgrymu dim newidiadau.

7. Gorllewin Abertawe Gŵyr / Swansea West Gower. Yn ei gynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn yn dadlau bod y cynnig hwn yn "cyfuno enwau etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig. Nid yw'r Comisiwn o'r farn ei bod yn dderbyniol i'r enw Cymraeg gael ei ddefnyddio yn Saesneg oherwydd ei fod yn cynnwys Gorllewin, felly mae'r Comisiwn wedi cynnig enwau swyddogol amgen yn y ddwy iaith". Ond trwy wneud dim ond cyfuno dau enw presennol yn un heb unrhyw gysylltydd gramadegol, mae'r Comisiwn wedi creu enw anghoeth ac anfanwl iawn. Er enghraifft, nid yw'n eglur yn y fersiwn Saesneg o'r enw a yw'r 'West' yn ymwneud â 'Swansea' neu 'Gower'.

Rydym yn cynnig yn hytrach yr enw amgen Gŵyr. Mae hwn yn enw daearyddol a gwleidyddol hanesyddol gywir ar yr etholaeth wedi'i pharu arfaethedig hon – cwmwd Gŵyr, a oedd yn cynnwys canol dinas Abertawe yr oes fodern (gweler https://cbhc.gov.uk/mapio-ffiniau-hanesyddol-cymru-cymydau-a-chantrefi/). Mae defnyddio'r enw Cymraeg hanesyddol yn gwahaniaethu o etholaeth 'Gower' ar lefel San Steffan, ac yn osgoi'r angen i ddefnyddio'r gair Cymraeg 'Gorllewin' y mae'r Comisiwn o'r farn sy'n annerbyniol ar gyfer defnydd cyffredin yn Saesneg.

8. De Powys Tawe Nedd / South Powys Tawe Neath. Yn ei gynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn yn dadlau bod yr enw arfaethedig hwn yn "cynnwys 1 o'r awdurdodau lleol sydd
wedi'u cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig yn ogystal â'r afon sy'n mynd trwy bob un o'r 3 awdurdod lleol ac enw tref fawr yn yr ardal". Ond trwy wneud dim ond cyfuno tri enw ardal ac un o'r pedwar ban yn un, heb ddefnyddio unrhyw gysylltydd gramadegol, mae'r Comisiwn wedi creu enw lletchwith ac anghoeth.

Rydym yn cynnig yn hytrach yr enw amgen Tawe, Nedd a'r Bannau. Mae'r dewis amgen hwn yn adlewyrchu prif nodweddion daearyddol yr ardaloedd arfordirol a nodwedd ddaearyddol fwyaf blaenllaw'r ardal fewndirol, ac yn cynnig ffordd fwy coeth o ddisgrifio'r sedd. Rydym hefyd yn nodi bod y rhan fwyaf o etholwyr yr etholaeth arfaethedig wedi'u lleoli yn agos at gymoedd Tawe isaf a Nedd a Bae Abertawe.

9. Afan Ogwr Rhondda. Rydym yn cytuno â'r enw etholaeth arfaethedig hwn ac yn awgrymu dim newidiadau.

10. Merthyr Cynon Taf. Rydym yn cytuno â'r enw etholaeth arfaethedig hwn ac yn awgrymu dim newidiadau.

11. Blaenau Gwent Caerffili Rhymni. Yn ei gynigion diwygiedig, mae'r Comisiwn yn dadlau bod y cynnig hwn yn "cynnwys y 2 awdurdod lleol a chwm mawr yn yr etholaeth arfaethedig a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr". Rydym yn cytuno y bydd yr enwau sydd wedi'u cynnwys yn yr enw hwn yn adnabyddadwy i drigolion ond yn dadlau bod y Comisiwn, trwy wneud dim ond cyfuno tri enw ardal yn un heb unrhyw gysylltydd gramadegol, wedi llunio cynnig lletchwith ac anghoeth.

Rydym yn cynnig dewis amgen mwy coeth, sef Cwm Rhymni a Blaenau Gwent. Mae'r dewis amgen hwn yn adlewyrchu'r ddau gyngor dosbarth blaenorol a chymunedau daearyddol/gwleidyddol sy'n ffurfio'r etholaeth arfaethedig hon. Mae cynnwys y gair 'Cwm' yn fwriadol, i wahaniaethu o bentref Rhymni a chydnabod y cam o baru etholaeth Blaenau Gwent a Rhymni gyda rhan ddeheuol cwm Rhymni (h.y. etholaeth Caerffili).

12. Mynwy Torfaen. Rydym yn cytuno â'r enw etholaeth arfaethedig hwn ac yn awgrymu dim newidiadau.

13. Casnewydd Islwyn. Rydym yn cytuno â'r enw etholaeth arfaethedig hwn ac yn awgrymu dim newidiadau.

14. De-ddwyrain Caerdydd Penarth / South-east Cardiff Penarth. O geisio ymgorffori elfennau lluosog yn yr enw etholaeth arfaethedig hwn heb unrhyw gysylltwyr gramadegol, mae'r Comisiwn wedi creu enw trwsgl, anfanwl ac anghoeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae 'De-ddwyrain' yn gyfeiriad cwmpawd trefnol ac yn cyfeirio at ardal wedi'i diffinio'n llawer culach o'r ddinas na'r hyn a gynigir gan y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth Senedd hon. Yma, rydym yn nodi bod enw etholaeth De-ddwyrain Caerdydd wedi bodoli ar gyfer Tŷ'r Cyffredin rhwng 1950 a 1983. Fel y mae ei henw yn ei awgrymu, roedd yn cwmpasu

rhan de-ddwyreiniol y ddinas – h.y. Adamsdown, Butetown, Grangetown, y Rhath, Tredelerch a'r Sblot.

O ystyried arwynebedd llawer mwy y sedd hon na 'de-ddwyrain Caerdydd' yn unig, mae angen enw mwy cyffredinol. Hefyd, er bod ardal yr etholaeth hon yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Caerdydd i Benarth, mae angen ffordd o fyrhau, cyffredinoli a symleiddio enw'r etholaeth arfaethedig. Rydym yn cynnig De Caerdydd / Cardiff South felly.

15. Gogledd-orllewin Caerdydd / Cardiff North-west. Yn yr un modd â'r etholaeth arall ar gyfer Caerdydd, mae'r enw arfaethedig hwn yn anghoeth a braidd yn gamarweiniol yn ei rychwant daearyddol. Mae 'Gogledd-orllewin' yn gyfeiriad cwmpawd trefnol ac yn cyfeirio at ardal wedi'i diffinio'n llawer culach o'r ddinas na'r hyn a gynigir gan y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth Senedd fawr hon. Yma, rydym yn nodi bod enw etholaeth Gogledd-orllewin Caerdydd wedi bodoli ar gyfer Tŷ'r Cyffredin rhwng 1974 a 1983. Fel y mae ei henw yn ei awgrymu, roedd yn cwmpasu rhan gogledd-orllewin y ddinas - h.y. Gabalfa, Llanisien, Rhiwbeina, a'r Eglwys Newydd. O ystyried arwynebedd llawer mwy y sedd hon na 'gogledd-orllewin Caerdydd' yn unig, mae angen enw mwy cyffredinol. Rydym yn cynnig Gogledd Caerdydd / Cardiff North felly.

16. Pen-y-bont Bro Morgannwg. Yn lluniad y Comisiwn, gellid dod i'r casgliad bod Pen-y-bont *ym* Mro Morgannwg. I egluro hyn a chaniatáu i enw arfaethedig yr etholaeth lifo'n fwy taclus yn y ddwy iaith, rydym yn argymell cael gwared ar y cysylltnodau ac ychwanegu cysylltydd 'a'. Mae gan symleiddio enw'r dref trwy gael gwared ar y cysylltnodau gynsail leol, fel enw'r tîm Uwch Gynghrair Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, CPD Penybont. Penybont a Bro Morgannwg fyddai enw amgen yr etholaeth yn deillio o hynny.

Diolch unwaith eto am y cyfle i ymateb i gynigion diwygiedig y Comisiwn ar gyfer etholaethau Senedd 2026, a diolch unwaith eto am eich gwaith ar y diwygiad pwysig hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]
Darllenydd mewn Gwleidyddiaeth | Reader in Politics

[redacted]
Athro Gwleidyddiaeth Cymru | Professor of Welsh Politics

[redacted]
Athro Polisi Cyhoeddus | Professor of Public Policy

[redacted]
Darlithydd mewn Gwleidyddiaeth | Lecturer in Politics

Prifysgol Caerdydd / Cardiff University
Canolfan Llywodraethiant Cymru / Wales Governance Centre

Ysgol Cyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd
Caerdydd [redacted]

Cardiff School of Law and Politics
Cardiff [redacted]